



GRANT ATGYWEIRIO ADEILADAU HANESYDDOL

NODIADAU I YMGEISWYR

1. Pa adeiladau sy'n gymwys

- 1.1. Mae'r grantiau'n cael eu rhoi yn gyfan gwbl yn ôl disgrisiwn. Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar Gyngor Sir y Fflint i gynnig grant mewn unrhyw achos penodol.
- 1.2. I fod yn gymwys am grant, rhaid i'r adeilad neu'r strwythur fod:-
 - a) Wedi'i gynnwys ar y Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig – sy'n cael eu galw'n adeiladau 'rhestredig', neu
 - b) O ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol penodol. Er nad ydynt wedi'u rhestru, byddai adeiladau felly yn benodol yn cynnwys:
 - i. Adeiladau o fewn ardaloedd cadwraeth, neu o fewn parciau a gerddi hanesyddol ar Gofrestr CADW/ICOMOS,
 - ii. Adeiladau o fewn cwrttil adeiladau rhestredig,
 - iii. Adeiladau sydd o fewn ardal sy'n cael ei hystyried i fod o fewn lleoliad adeilad rhestredig.

2. Pwy all ymgeisio am gymorth grant?

- 2.1 Gall unrhyw berson neu gorff ymgeisio am grant cyhyd â bod yr ymgeisydd mewn sefyllfa i wneud y gwaith.
- 2.2 Ni ddylai ymgeiswyr wneud elw o ddyfarniad grant ac mae'n rhaid iddynt ddatgan os oes ganddynt hawl i godi am gost y gwaith yn erbyn trethi corfforaethol neu rai eraill.

3. Pa waith sy'n gymwys am gymorth grant?

- 3.1 Pwrpas y grant yw helpu perchnogion sy'n wynebu costau eithriadol o ganlyniad i gymeriad arbennig adeilad sydd angen ei atgyweirio a lle mae nodweddion gwreiddiol yn cael eu gosod yn ôl. Mae egwyddorion atgyweirio wedi'u nodi mewn canllaw ar wahân sydd ar gael gan y Cyngor gyda'r ddogfen hon.
- 3.2 Dim ond ar gyfer gwaith atgyweirio sy'n unol ag egwyddorion cadwraeth cadarn, sefydledig y bydd grantiau'n cael eu cynnig. Dylid osgoi gwaith radical o newid nodweddion hanesyddol am rai newydd lle byddai atgyweirio'r adeiladwaith sydd yno eisoes yn ddiogon i ddatrys y broblem. Dylid osgoi gwaith adfer ac ailosod nodweddion dyfaliadol heb dystiolaeth ategol glir i ddangos bod y nodwedd wedi bodoli ac ni fydd hynny'n gymwys am gymorth grant.

- 3.3 Bydd angen caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer gwaith ar Adeilad Rhestredig sy'n cynnwys unrhyw addasiadau neu estyniadau a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Nid yw'n debygol y bydd gwaith atgyweirio a chynnal a chadw sydd ddim yn effeithio ar gymeriad adeilad angen caniatâd adeilad rhestredig, ond efallai y bydd angen cyflwyno datganiad dull.
- 3.4 Mae'n bwysig bod pob caniatâd angenrheidiol wedi'i gael cyn cychwyn gwaith, yn enwedig os yw'n drosedd gwneud unrhyw waith dymchwel, addasu neu godi estyniad heb gael caniatâd yn gyntaf sy'n gallu cael ei gosbi trwy ddirwy sylweddol neu garchar. Gall Swyddog Cadwraeth Treftadaeth Adeiledig y Cyngor gynghori a oes angen caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio ar gyfer y gwaith.
- 3.5 Mae gwneud gwaith atgyweirio ar adeiladau hanesyddol yn waith crefftus ac argymhellir i ymgeiswyr gael cyngor proffesiynol arbenigol. Bydd ffioedd ymgynghorwyr proffesiynol sy'n perthyn i sefydliadau cydnabyddedig fel arfer yn gymwys i gael cymorth grant.
- 3.6 Nid yw grantiau ar gael i foderneiddio, gwella neu godi estyniad ar adeiladau hanesyddol.

4. Faint o gymorth grant sy'n cael ei dalu tuag at gyfanswm costau atgyweirio?

	Uchafswm y grant sydd ar gael	Math o adeilad
1	50% o gostau cymwys (heb gynnwys TAW) hyd at uchafswm o £5,000 o grant	Adeiladau rhestredig Gradd I a II*
2	50% o gostau cymwys (heb gynnwys TAW) hyd at uchafswm o £5,000 o grant	Adeiladau rhestredig Gradd II
3	50% o gostau cymwys (heb gynnwys TAW) hyd at uchafswm o £10,000 o grant	Adeilad rhestredig gwag neu un mewn perygl
4	50% o gostau cymwys (heb gynnwys TAW) hyd at uchafswm o £2,500 o grant	Adeiladau heb eu rhestru sydd o fewn cwrtil adeilad rhestredig, yn effeithio ar leoliad adeilad rhestredig neu o fewn ardal gadwraeth neu barc neu ardd hanesyddol
5	50% o gostau cymwys (heb gynnwys TAW) hyd at uchafswm o £2,500 o grant	Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol lleol y tu allan i ardaloedd dynodedig

5. Contractwyr Arbenigol

- 5.1 Atgoffir ymgeiswyr mai eu cyfrifoldeb nhw yw dibynadwyedd, safon crefftwaith ac ymddygiad cyffredinol foddhaol contractwr ac y dylid defnyddio arbenigwyr sydd â phrofiad o weithio ar adeiladau hanesyddol. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod y contractwyr maent wedi'u dewis yn gallu dangos eu bod yn gymwys trwy ddarparu geirdaon boddhaol a thrwy ddarparu tystiolaeth eu bod wedi gwneud gwaith tebyg yn llwyddiannus yn y gorffennol. Ni all y Cyngor Sir argymhell contractwyr nac asiantiaid proffesiynol i'w dewis.

6 Ansawdd y Gwaith

- 6.1 Rhaid i unrhyw waith sydd â chymorth grant fod wedi'i fanylu'n gywir a rhaid iddo gael ei wneud yn ôl y safonau crefftwaith uchaf. Mae'r Cyngor Sir yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig am grant yn ôl neu wrthod talu os nad yw'r gwaith yn cyrraedd y safonau hyn neu os yw'n groes i'r manylion a gymeradwywyd ar gyfer y gwaith neu os nad yw'n cydymffurfio ag amodau'r grant.

7 Dechrau'r Gwaith

- 7.1 Dan amgylchiadau arferol, ni ddylai'r gwaith gychwyn nes mae cymeradwyaeth am grant wedi'i dderbyn, ynghyd ag unrhyw ganiatâd perthnasol. Efallai y bydd achlysuron pan all grantiau gael eu talu am waith sydd wedi cychwyn, ond yn yr achosion prin hyn, bydd yn rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod:-
- a) Y gwaith arfaethedig yn foddhaol mewn egwyddor a'i fod wedi'i gwblhau i safon dderbyniol o grefftwaith;
 - b) Archwiliad rhagarweiniol wedi'i gynnal gan y Cyngor i bennu'r rheswm dros yr angen i gychwyn y gwaith ar frys.
- 7.2 Cofiwch y bydd dechrau gwaith yn fuan fel arfer yn golygu bod cais am gymorth grant yn annilys ac mae ymgeiswyr sy'n dechrau gwaith cyn derbyn cadarnhad am gynnig grant yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain.
- 7.3 Os byddwch yn cychwyn cyn cael cymeradwyaeth i'r cais, dylech gofio mai chi sy'n gyfrifol am dalu bil y contractwr am unrhyw waith mae'n ei wneud, p'un a fyddwch chi'n derbyn grant ai peidio.

8. Grantiau Eraill

- 8.1 Gallai ffynonellau eraill o gymorth grant fod ar gael i ategu'r grant hwn. Dylai ymgeiswyr ddatgelu manylion am geisiadau eraill am grantiau.

8.2 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw ymchwilio i'r ffynhonnell fwyaf priodol o gyllid ar gyfer unrhyw brosiect penodol. Bydd angen i ymgeiswyr dystio nad ydynt wedi ymgeisio na chael cynnig am unrhyw grantiau eraill tuag at gostau'r gwaith, cyn derbyn taliad.

9. Amodau sydd ynghlwm â dyfarnu grant

9.1 Bydd cynigion grant yn destun y telerau a'r amodau sydd wedi'u nodi yn llythyr y cynnig grant. Bydd yr amod safonol ganlynol hefyd fel arfer yn cael ei gosod ar unrhyw gynnig:-

- a) Bydd gan y Cyngor hawl i archwilio'r gwaith wrth iddo gael ei wneud ac ar ôl iddo gael ei gwblhau,
- b) Dylai'r holl waith arfaethedig gael ei wneud a dylai fodloni'r Swyddog Cadwraeth Treftadaeth Adeiledig,
- c) Ni ddylai unrhyw waith arall gael ei wneud ar wahân i'r hyn sy'n unol â'r rhestr o waith a gafodd ei gymeradwyo,
- d) Rhaid derbyn y cynnig grant yn ysgrifenedig o fewn un mis. Rhaid i'r gwaith gael ei gwblhau o fewn y cyfnod sydd wedi'i nodi ac, fel arfer, mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y cyfrifon terfynol cyn 1 Mawrth yn y flwyddyn ariannol y gwneir y cynnig ynddi,
- e) Ni ddylai unrhyw gontractwr ar wahân i'r un sydd wedi'i enwi yn y llythyr cynnig gael ei benodi heb awdurdodiad ysgrifenedig Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi.

10. Treth Ar Werth

10.1 Rhaid i'r ymgeisydd dystio nad yw o/hi'n gallu adennill unrhyw TAW a delir. Ni fydd TAW yn gymwys am gymorth grant dan yr amgylchiadau hyn, ond os nad oes modd adennill TAW, bydd y Cyngor yn ei ystyried yn gymwys am gymorth dan y cynllun grant.

11. Sut i wneud cais

11.1 I ymgeisio, argraffwch gopi o'r ffurflen gais, yna ei llenwi, ei sganio a'i hanfon dros e-bost gyda'r wybodaeth ategol ofynnol sydd yn Adran 4 ar fformat PDF at conservation@flintshire.gov.uk. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu derbyn ceisiadau drwy'r post oherwydd cyfyngiadau Covid.